Cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng yng Nghymru oherwydd COVID-19

Y Comisiwn Etholiadol

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, y gallwch gael rhywun rydych yn ymddiried ynddo i wneud hynny ar eich rhan.

Rhaid i chi a'ch dirprwy fod wedi cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio.

Gall person ond fod yn ddirprwy i berthnasau agos a hyd at ddau berson arall mewn etholiad.

Perthnasau agos yw priod, partner sifil, rhiant, mam-gu neu dad-cu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yr ymgeisydd.

Gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng os ydych yn hunanynysu, neu er mwyn newid dirprwy cyfredol os ydynt yn hunanynysu. **Mae'r rheolau'n amrywio yn ôl y math o etholiad yr ydych yn bwriadu pleidleisio ynddo. Mae'r ffurflen hon a'r dyddiadau cau hyn ond yn gymwys at etholiadau yng Nghymru.**

Os ydych am bleidleisio trwy ddirprwy yn etholiad y Senedd, rhaid i chi fod wedi dod yn ymwybodol o'r angen i hunanynysu ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Ar gyfer pob etholiad arall, nid oes angen i chi ddatgan pryd y daethoch yn ymwybodol bod angen i chi hunanynysu.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffurflen hon i newid dirprwy hir-dymor neu ddirprwy ar gyfer etholiad penodol os na allant bleidleisio'n bersonol ar eich rhan gan eu bod yn dilyn y gyfraith a/neu ganllawiau'r llywodraeth mewn perthynas â'r coronafeirws a hunanynysu. **Os ydych am newid eich dirprwy ar gyfer etholiad y Senedd, rhaid i chi fod wedi dod yn ymwybodol bod angen i'ch dirprwy cyfredol hunanynysu ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais.** Ar gyfer pob etholiad arall, nid oes angen i chi ddatgan pryd y daethoch yn ymwybodol bod angen i'ch ddirprwy cyfredol hunanynysu.

Ar gyfer pob etholiad, gallwch wneud cais i newid eich dirprwy hyd at 5pm ar ddiwrnod y bleidlais. Os oes gennych drefniant dirprwy hir-dymor, bydd eich dirprwy newydd yn parhau i fod wedi ei benodi ar gyfer etholiadau yn y dyfodol oni bai eich bod yn gwneud cais i newid neu ddileu eich dirprwy.

Sut y gallaf wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Rhaid i chi ofyn i rywun sy'n barod i fod yn ddirprwy ar eich rhan a phleidleisio drosoch, ac sy'n gallu gwneud hynny.
- Llenwch y ffurflen gais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy. Rhaid i chi roi rheswm pam y mae angen i chi bleidleisio drwy ddirprwy.
- Darllenwch y ffurflen yn ofalus a llenwi'r adrannau sy'n berthnasol i'ch cais. Bydd angen i chi roi eich dyddiad geni a'ch llofnod ar y ffurflen gais hon. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.
- Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol. **Mae ei fanylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.

Rhaid i'r ffurflen hon gyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol **cyn 5pm ar ddiwrnod y bleidlais.**

Rhaid eich bod eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, cyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy neu bleidlais argyfwng drwy ddirprwy. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.** Cofrestrwch i bleidleisio ar-lein yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

Cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng yng Nghymru oherwydd COVID-19

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio.
- Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut rydych am iddo bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa mgeiswyr neu bleidiau.
- Bydd tîm etholiadau eich cyngor yn dweud wrth eich dirprwy pryd a ble i bleidleisio ar eich rhan.

Datganiad preifatrwydd

Rydym yn casglu gwybodaeth o dan y sail gyfreithiol ei bod yn dasg a gynhelir er budd y cyhoedd, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a rheoliadau cysylltiedig. Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni at ddibenion etholiadol, gan gynnwys ei chyfateb yn erbyn ffynonellau eraill o ddata ar y gofrestr etholiadol. Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag unrhyw un arall, oni bai ei bod yn rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu eich gwybodaeth ag ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr at ddibenion ymgysylltu democrataidd ac asiantaethau gwirio credyd er mwyn cadarnhau eich manylion pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd.

Os nad ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, gall unrhyw un brynu eich enw a'ch cyfeiriad a'u defnyddio at nifer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad ei wefan a'i fanylion cyswllt yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

Cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng yng Nghymru oherwydd COVID-19

Dim ond un person a all gofrestru am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi cwblhau pob adran ac wedi llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol. Gallwch ddod o hyd i'w gyfeiriad yn **comisiwnetholiadol.org.uk/pleidleisiwr.**

1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad (ble rydych wedi cofrestru i bleidleisio)

Cod post

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn yn rhoi ffordd gyflym a hawdd i ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

2 Ynglŷn â'ch dirprwy (y sawl rydych wedi'i ddewis i bleidleisio ar eich rhan)

Enw llawn

Perthynas deuluol (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

3 Gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng

Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng.

Rwyf am bleidleisio trwy ddirprwy ym mhob etholiad yr wyf yn gymwys i bleidleisio ynddo ar:

D D M M B B B B

Cadarnhewch fod y datganiad isod yn gywir:

☐ Ni allaf bleidleisio'n bersonol gan fy mod yn hunanynysu ac yn dilyn y gyfraith neu ganllawiau'r llywodraeth mewn perthynas â'r coronafeirws

Pryd daethoch yn ymwybodol bod angen i chi hunanynysu? (Dim ond i'w lenwi ar gyfer etholiadau'r Senedd, lle mae rhaid i chi fod wedi dod yn ymwybodol o'r angen i hunanynysu ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais).

Amser

Dyddiad D D M M B B B B

Cais am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng yng Nghymru oherwydd COVID-19

4 Newid dirprwy cyfredol

Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cais i newid eich dirprwy cyfredol.

Rwyf am newid fy nhrefniant dirprwy cyfredol ar gyfer pob etholiad rwy'n gymwys i bleidleisio ynddo ar:

D D M M B B B B

Cadarnhewch fod y datganiad isod yn gywir:

☐ Mae fy nirprwy cyfredol yn hunanynysu oherwydd cyngor y llywodraeth neu gyngor meddygol, ac ni all bleidleisio ar fy rhan

Pryd daethoch yn ymwybodol bod angen i'ch dirprwy cyfredol hunanynysu? (Dim ond i'w lenwi ar gyfer etholiadau'r Senedd, lle mae rhaid i chi fod wedi dod yn ymwybodol o'r angen i hunanynysu ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais).

Amser

Dyddiad D D M M B B B B

5 Eich dyddiad geni a datganiad

Datganiad: Rwyf wedi gofyn i'r person rwyf wedi'i enwi'n ddirprwy a gallaf gadarnhau ei fod yn barod i bleidleisio ar fy rhan a'i fod yn gallu gwneud hynny.

Hyd y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, ac y gallwn gael fy ngharcharu am hyd at ddwy flynedd a/neu gael dirwy.

Dyddiad geni: Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

D D M M B B B B

Llofnod: Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.

6 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw D D M M B B B B